

EVANS, WILLIAM JOHN (1866 - 1947), cerddor

Enw: William John Evans
Dyddiad geni: 1866
Dyddiad marw: 1947
Priod: Mary Elizabeth Evans (née Milligan)
Plentyn: Ifor Leslie Evans
Rhiant: Rhys Evans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd 29 Tachwedd 1866 yn Aberdâr. Dygwyd ef i fyny yn yr un alwedigaeth â'i dad, **Rhys Evans** a chydag ef yn y fasnach. Cafodd bob mantais i feithrin a datblygu'r dalent gerddorol yn ei gartref, a llwyr ymroddodd yntau i wasanaethu cerddoriaeth. Penodwyd ef yn organydd capel Siloa, a gelwid am ei wasanaeth yn y deheudir i roddi perfformiadau ar yr organ. Gwasanaethodd fel beirniad mewn amryw eisteddfodau. Yr oedd yn un o arweinyddion mwyaf poblogaidd cymafoedd canu, a bu'n arwain cannoedd ohonynt yng Nghymru. Gwnaeth wasanaeth arbennig i gerddoriaeth trwy ffurfio cerddorfa yn Aberdâr, a chynnal cyngherddau cerddorfaol o weithiau'r meistri. Enillodd y gerddorfa yn eisteddfod genedlaethol Pontypridd. Enillodd Côr Meibion Aberpennar, o dan ei arweiniad yn eisteddfod yr Albert Hall, Llundain. Yr oedd yn un o olygwyr *Y Caniedydd Cynulleidfaol Newydd*, 1921, a *Caniedydd Newydd yr Ysgol Sul*, 1930. Ceir pump o donau o'i waith yn *Y Caniedydd Cynulleidfaol Newydd*, ac y mae ei dôn 'Rhys' (a gyfansoddodd er côf am ei dad) ar yr emyn 'Rho im yr hedd' yn boblogaidd. Perfformiwyd llawer o gyfanweithiau ganddo ef a'i dad yn Aberdâr. Wedi colli ei briod, ac ymddiswyddo o'i fasnach, aeth i fyw at ei fab - y **Prifathro Ifor L. Evans**, Aberystwyth, ac yno y bu farw ar 12 Rhagfyr 1947. Claddwyd ef ym mynwent Aberdâr.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

Y Cerddor, Awst 1899, Awst 1905, a Ionawr 1917

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734649

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Griffith, R. D., (1970). EVANS, WILLIAM JOHN (1866 - 1947), cerddor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 5 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-EVAN-JOH-1866>

Prifathro

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government